# Rheoli ansawdd technegol

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chreu cynnwys sy'n foddhaol yn dechnegol, cynnal Safonau fydd yn bodloni disgwyliadau'r cleientiaid a'r gynulleidfa ar gyfer yr amgylchedd masnachol a'r cyfryngau gwahanol y bydd yn rhan ohonynt.

Dylai'r Safon hon fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n gysylltiedig â rheoli ansawdd technegol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi disgwyliadau technegol a gofynion cleientiaid o ffynonellau dibynadwy
2. cytuno ar ofynion o ran amserlen, amser a chyllideb gyda phobl berthnasol
3. pennu manylion technegol sy'n cydymffurfio â disgwyliadau ansawdd a gofynion technegol
4. gwneud penderfyniadau critigol am ansawdd fideo a sain yn erbyn safonau artistig a thechnegol disgwyliedig
5. asesu cynnwys yn erbyn manyleb ansawdd technegol ac argymell gwaith i gywiro elfennau nad ydynt yn ateb y fanyleb
6. gwneud addasiadau angenrheidiol i gynnwys er mwyn cyflawni cydymffurfiaeth dechnegol a chyfreithiol
7. dod o hyd i gyfaddawdau sy'n dderbyniol i gleientiaid, lle mae elfennau'n anodd i'w hunioni neu lle na ellir eu hariannu
8. paratoi adroddiadau asesu ansawdd, gan ddogfennu eithriadau o ran cydymffurfiaeth dechnegol a chyfiawnhad yn unol â gweithdrefnau'r cwmni
9. cynghori pobl berthnasol ar anghenion a phrosesau pellach ar gyfer ôl-gynhyrchu
10. cynnal diogelwch ar gyfer ffeiliau a deunyddiau eraill yn unol â gofynion y cwmni

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. effaith lliw ar ganfyddiad cynulleidfa a sut i wella canfyddiad drwy ei addasu
2. sut i asesu ansawdd fideo yn ôl safonau artistig disgwyliedig
3. sut i gael gwybod gan gleientiaid pa effaith maent yn ceisio'i chyflawni ac awgrymu datrysiadau creadigol iddynt
4. sut i nodi nodau creadigol penodol ar gyfer golygfeydd a lluniau neu gyflwyniad arddulliedig
5. defnyddio Tablau Am-Edrych (LUTs) neu biblinellau lliw cytunedig wrth gyflawni gofynion artistig cyson ar draws ystod o bethau y gellir eu cyflawni a thechnolegau arddangos
6. ffyrdd mae gwahanol gyfryngau ail-godio a chamerâu yn effeithio ar liw
7. cydrannau lliw mewn ffilm a gofod lliw
8. sut i ddefnyddio gwahanol offer a meddalwedd i addasu lliw, eglurder delweddau a gwelliannau gweadol eraill, megis trylediad digidol a meddalu
9. sut i gydnabod cyfyngiadau gwahanol ddeunydd crai ffilm a pha mor bell y gellir gwthio'r lliwiau wrth ôl-gynhyrchu
10. gofynion o ran fformat a labelu ar gyfer gwahanol lifoedd gwaith
11. safonau gwylio presennol a safonau proffesiynol, cenedlaethol a rhyngwladol presennol o ran darparu a datganiadau o arfer gorau ar yr ystod o lwyfannau a chynnwys

Rheoli ansawdd technegol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative Skillset |
| **RCU gwreiddiol** | SKSPP21 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Ôl-gynhyrchu |
| **Geiriau Allweddol** | Ôl-gynhyrchu, Cynhyrchu, Ffilm, Theledu, Safonau, Technegol, Ansawdd, y gellir eu cyflawni |